



Ymyriadau dal i fyny effeithiol

Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r tarfu ar ddysgu myfyrwyr yn sgil cau ysgolion oherwydd y coronafeirws trwy ymrwymo £150 miliwn yn 2021/22 drwy'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gwerth £35.8 miliwn i recriwtio, adfer a chodi safonau yn ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021). Bydd llwyddiant y dull hwn yn cael ei effeithio gan y pethau canlynol (ymhlith pethau eraill):

- Dulliau a modelau cymorth 'dal i fyny' a ddarperir;
- Y ffordd o adeiladu ar brofiadau o ddysgu cyfunol a dysgu o bell ac, o bosibl, eu datblygu yn y dyfodol; a
- Dylunio, cyflwyno a defnyddio datblygiad proffesiynol athrawon.

Mae'r briff polisi hwn yn adolygu'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar ymyriadau dal i fyny. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddau bapur briffio ar bolisi arall yn y gyfres, ar ddatblygiad proffesiynol, ac addysgu a dysgu cyfunol.

Y negeseuon allweddol ar ymyriadau dal i fyny yw:

Ymyriadau dal i fyny: Dim ond nifer fach o ymyriadau dal i fyny sydd wedi'u gwerthuso'n gadarn ac yn annibynnol. Dylai ysgolion geisio defnyddio ymyriadau ar sail dystiolaeth lle bynnag y bo modd, ac o leiaf dylent geisio cymhwyso nodweddion cyffredin y dangoswyd eu bod yn cynyddu effeithiolrwydd.

Strategaethau dal i fyny: Yn siarad yn gyffredinol, po lleiaf yw'r grŵp sy'n derbyn hyfforddiant dal i fyny, y mwyaf effeithiol yw'r ymyrraeth. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall hyfforddiant mewn grwpiau bach, fel parau neu grwpiau o dri, arwain at lefelau tebyg o effaith â hyfforddiant un i un, yn enwedig pan ddarperir cefnogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel i'r addysgwyr. Mae hyn yn dyblu neu'n treblu nifer y plant a all elwa.

Gweithredu: Mae gweithredu'n effeithiol yn dibynnu ar allu a hyfforddiant athrawon/addysgwyr,¹ nodi a thargedu anghenion disgyblion yn effeithiol, symleiddio unrhyw ymyriadau ychwanegol gydag addysgu prif ffrwd yn yr ystafell ddosbarth, ac ystyried pryd mae'r ymyriadau'n digwydd (boed yn ychwanegol at neu yn lle addysgu prif ffrwd ystafell ddosbarth).

Er mwyn i ymyriadau dal i fyny fod yn effeithiol, mae'n bwysig tynnu ar dystiolaeth sy'n ymwneud â 'beth' y dylid ei ddarparu a 'sut' y dylid eu cyflwyno.

¹ Gweler y briff polisi sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol athrawon i gael mwy o wybodaeth a thystiolaeth ar y pwnc hwn.

Cyd-destun ac angen

Mae cau ysgolion yn sgil y coronafeirws wedi arwain at aflonyddwch sylweddol i ddysgu plant a phobl ifanc yng Nghymru, fel mewn mannau eraill. Mae effaith y tarfu hwn wedi bod yn arbennig o ddifrifol i ddysgwyr difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed (Major, Eyles a Machin, 2021). Yn y tymor hwy, yn ogystal ag ehangu anghydraddoldebau, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhybuddio y bydd colli hanner blwyddyn o addysg (fel sy'n wir am y mwyafrif o blant erbyn hanner tymor Chwefror 2021), heb ymyriadau adferol dal i fyny, yn arwain at blant ysgol yn colli allan ar gyfartaledd o £40,000 mewn enillion oes (Sibieta, 2021).

Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb gyda chynllun adfer 'Adnewyddu a Diwygio'. Mae hyn yn cynnwys £35.8 miliwn i barhau â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, gan gadw'r 1,800 o staff cyfwerth ag amser llawn a recriwtiwyd yn 2020/21 i 2021, a chadw'r ffocws ar dargedu cymorth a mentora at y dysgwyr mwyafrif agored i niwed a difreintiedig.

Bydd ymyriadau dal i fyny yn rhan hanfodol o ymdrechion i adfer addysg. Mae'n allweddol bod ymyriadau a'u gweithrediad wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael i sicrhau eu bod yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl, mewn ffordd sy'n cael ei gyrru gan angen myfyrwyr.

Bydd gosod y dystiolaeth hon yng nghyd-destun ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru, o ran 'dysgwyr sydd â'r angen mwyaf' (sy'n cynnwys disgyblion sy'n paratoi ar gyfer arholiadau, plant agored i niwed a difreintiedig, a disgyblion Blwyddyn 7) a meysydd cwricwlwm (fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau dysgu annibynnol, ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol), yn hanfodol er mwyn gweithredu ymyriadau'n effeithiol.

Yn y pen draw, er mwyn i ymyriadau dal i fyny fod yn effeithiol, bydd yn bwysig tynnu ar dystiolaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Yr ymyriadau dal i fyny sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol (h.y. 'beth' y dylid ei gyflwyno); a

- Sut y gellir rhoi'r ymyriadau hyn ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn fwyaf effeithiol (h.y. strategaethau dal i fyny, neu 'sut' y dylid eu cyflwyno).

Ymyriadau dal i fyny effeithiol

Mae ymyriadau dal i fyny yn aml yn benodol i oedran a chanlyniad. Hynny yw, maent yn canolbwyntio ar bynciau neu sgiliau penodol mewn perthynas â chyrhaeddiad cyfartalog ar oeddrannau penodol. Er enghraifft, mae Nuffield Early Language Intervention yn ymyrraeth iaith lafar ar gyfer plant oed meithrin a derbyn y dangoswyd ei bod yn cael effeithiau cadarnhaol ar sgiliau iaith, gan gynnwys chwe mis ar ôl yr ymyrraeth (Sefydliad Gwaddol Addysgol [EEF], 2016). Gall mathau eraill o ymyrraeth ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau anacademaidd, megis anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae'n bwysig paru cynnwys yr ymyrraeth ag anghenion y plant.



At ei gilydd, dim ond nifer fach o werthusiadau cadarn sydd wedi'u cynnal ar ymyriadau dal i fyny yn y DU. Mae ymyriadau sydd â sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer effeithiolrwydd yn cynnwys [Catch Up Numeracy](#), [Catch Up Literacy](#) (y ddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg – *Rhifedd Dyfal Donc a Llythrennedd Dyfal Donc*), [Talk for Literacy](#), [Nuffield Early Language Intervention](#), [ABRA](#), [1stClass@Number](#) a [Switch-on Reading](#) (Llywodraeth Cymru, 2012; EEF, 2018a).

Gall gwerthusiadau o wahanol ymyriadau dal i fyny roi arwydd o ba nodweddion cyffredin sy'n gysylltiedig â mwy o effeithiolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae ymyriadau sy'n diwallu angen penodol (e.e. sgiliau iaith lafar) yn fwy tebygol o fod yn effeithiol;
- Dylai nodau'r ymyrraeth dal i fyny alinio â nodau addysgu dosbarth cyfan;
- Mae sesiynau ymyrraeth effeithiol yn tueddu i fod yn fyr (20-50 munud) ac i gael eu cyflwyno'n rheolaidd ac yn gyson (3-5 gwaith yr wythnos) a thros gyfnod hir (8-20 wythnos);
- Dylid cwblhau asesiadau i nodi disgyblion sydd angen ymyrraeth/ymyriadau, targedu meysydd ffocws yn unol ag anghenion disgyblion, a monitro cynnydd, yn ystod ac yn syth ar ôl yr ymyrraeth, i sicrhau y gall disgyblion lwyddo wedi hynny (EEF, 2018a); ac
- Mae angen meini prawf clir ar gyfer llwyddiant a monitro i gyd-fynd ag asesiadau unwaith y daw'r ymyrraeth i ben, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch pryd i roi'r gorau i ddarparu ymyriadau dal i fyny.

Yn ddelfrydol, dylid blaenoriaethu ymyriadau dal i fyny strwythuredig sydd â sylfaen dystiolaeth gref i'w defnyddio mewn ysgolion. Mae ymyrraeth 'strwythuredig' yn golygu cael adnoddau a chynlluniau gwersi ategol, gydag amcanion clir, a chyflawni yn unol â hynny (EEF, 2018a). Pan nad yw'n bosibl gweithredu ymyriadau dal i fyny strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dylid rhoi'r nodweddion cyffredin ar gyfer effeithiolrwydd (fel y nodwyd uchod) ar waith gymaint â phosibl. Efallai y bydd angen defnyddio ymyriadau dal i fyny 'heb eu profi' mewn rhai achosion, o ystyried y nifer fach o ymyriadau sydd wedi'u gwerthuso'n ffurfiol yn y DU a'r gyfran fach o'r rhai sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r opsiwn i ddewis cyflwyno ymyriadau addawol sy'n cael eu treialu neu eu gwerthuso.

Nid yw maint grŵp o reidrwydd yn bwysicach nag ansawdd addysgu.

Strategaethau dal i fyny effeithiol

Er bod y corff tystiolaeth sy'n sail i ymyriadau dal i fyny penodol yn brin, mae llawer yn bodoli ar strategaethau dal i fyny. Er enghraifft, mae adolygiadau'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) o hyfforddiant un i un ac mewn grwpiau bach wedi nodi tystiolaeth helaeth sy'n cefnogi eu heffaith fel strategaethau dal i fyny (EEF, 2018b). Mae'r dystiolaeth yn gryf ac yn gyson ar y cyfan – gweler y blwch isod.

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dulliau ymyrraeth dal i fyny

Mae **hyfforddiant un i un** yn cyfeirio at athro (neu addysgwr arall) yn darparu cefnogaeth ddwys ac unigol i ddisgybl, naill ai fel dewis arall neu ar wahân i wersi ystafell ddosbarth. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall gyflawni cynnydd o oddeutu pum mis, ar gyfartaledd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyffredinol yn gryf ac yn gyson, gyda ffocws cymharol fwy ar ddysgwyr iau mewn ysgolion cynradd ac ymyriadau darllen a mathemateg. Yn gyffredinol, mae hyfforddiant un i un wedi dangos canlyniadau arbennig o gadarnhaol i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae **hyfforddiant grŵp bach** yn cyfeirio at un athro/addysgwr yn gweithio gyda dau i bump o ddisgyblion mewn grŵp, fel arfer mewn gofod ar wahân i'r brif ystafell ddosbarth. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddisgyblion â chyrhaeddiad isel ac mae'n gymharol gyfyngedig o gymharu â'r dystiolaeth ar hyfforddiant un i un. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn arbennig o gyfyngedig o ran astudiaethau yn y DU.


Addasiad o'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF, 2018b), t.26 a 42

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyriadau dal i fyny yn cynyddu mewn effeithiolrwydd wrth i feintiau grwpiau leihau, gyda darpariaeth un i un yn fwyaf effeithiol, ac effeithiolrwydd yn lleihau'n sylweddol unwaith y bydd maint grwpiau'n cyrraedd rhwng chwech a saith o ddisgyblion (EEF, 2018b). Er enghraifft, dangosodd canlyniadau gwerthusiadau o bedwar ymyriad dysgu un i un yn y DU gynnydd ychwanegol o dri i chwe mis ar gyfartaledd (Gorard ac eraill, 2014; Roy ac eraill, 2019; Rutt ac eraill, 2014; Sibiet, 2016). Awgrymir y gallai'r cydberthyniad rhwng maint grwpiau llai a mwy o effaith gael ei egluro gan grwpiau llai yn caniatáu mwy o adborth ac ymgysylltiad parhaus, neu aliniad agosach ag anghenion disgyblion (EEF, 2018b).

Fodd bynnag, mae'r duedd gyffredinol gyson hon yn cuddio rhywfaint o amrywioldeb yn y dystiolaeth. Er enghraifft, weithiau mae ymyriadau dal i fyny sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac sy'n dibynnu ar hyfforddiant grŵp bach yn dangos mwy o effaith na'r rhai sy'n defnyddio addysgu un i un neu addysgu mewn parau. Yn fwy cyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall hyfforddiant grŵp bach, fel parau neu grwpiau o dri (Torgerson ac eraill, 2003), arwain at lefelau tebyg o effaith â hyfforddiant un i un. Mae'r Sefydliad Addysgol Gwaddol (EEF) yn amlinellu dau brif bwynt i'w cymryd o ganlyniad i'r amrywiant hwn:

1. Nid yw maint grŵp o reidrwydd yn bwysicach nag ansawdd addysgu; a
2. Dylai gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth dal i fyny ystyried y rhyngweithio rhwng gwahanol gyfansoddiadau grŵp a'r pwnc sy'n cael ei addysgu (EEF, 2018b).

Gellid cynnal ymchwil bellach sy'n cymharu effaith ymyriadau yn systematig wrth ddefnyddio gwahanol feintiau grŵp – mae'r llenyddiaeth ar hyfforddiant grŵp bach ar hyn o bryd yn cynnwys nifer fwy o astudiaethau ar hyfforddiant un i un neu wersi mewn parau na meintiau mwy.



Cydberthyniad rhwng maint grŵp ac effeithiolrwydd

Serch hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos y gellir defnyddio hyfforddiant un i un a grŵp bach fel strategaethau dal i fyny effeithiol. Er bod hyfforddiant un i un yn dangos mwy o effaith yn gyffredinol o'i gymharu â hyfforddiant grŵp bach, mae goblygiadau adnoddau a chost amlwg i'w hystyried, ar ben yr amrywioldeb yn y sylfaen ymchwil. Mae hyfforddiant un i un yn costio amcangyfrif o £700 y disgybl y tymor, sy'n gostwng i £350 ar gyfer grŵp dau ddisgybl, a £233 ar gyfer grŵp tri disgybl (EEF, 2018b).² O ganlyniad, gallai hyfforddiant grŵp bach gyflwyno'r dull gorau o ymyriadau dal i fyny yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael.


Mae ymchwil hefyd yn bodoli ar yr enillion a gyflawnwyd o ganlyniad i ymyriadau dal i fyny mewn perthynas â phwy sy'n eu darparu, yn ogystal ag ar bwysigrwydd cysylltu ac alinio ymyriadau dal i fyny ag addysgu a gweithgareddau cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth (EEF, 2018a).

Mae ymyriadau dal i fyny a ddarperir gan athrawon cymwys yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol, a chynorthwyrwyr addysgu yn ail, gydag ymyriadau a ddarperir gan wirfoddolwyr yn lleiaf effeithiol. Fodd bynnag, mae ymyriadau gan y tri math o addysgwyr yn dangos canlyniadau cadarnhaol, a gall hyfforddiant arwain at gynnydd sylweddol yn effeithiolrwydd ymyriadau a ddarperir gan gynorthwyrwyr addysgu neu wirfoddolwyr hyfforddedig (EEF, 2018a).

² Gan dybio 30 munud o hyfforddiant, bum gwaith yr wythnos, am 12 wythnos, sy'n gofyn am oddeutu pedwar diwrnod llawn o amser athro.

Mae hon yn ystyriaeth bwysig, o ystyried yr adnodd ariannol cymharol uwch sy'n ofynnol i ddarparu ymyriadau dal i fyny dan arweiniad athrawon, ac mae hefyd wedi'i halinio â chanllawiau ar sut y gall ysgolion yng Nghymru ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn y ffordd orau (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae darparu hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon ac addysgwyr sy'n darparu ymyriadau dal i fyny hefyd yn adeiladu gallu cynaliadwy mewn ysgolion, a fyddai felly'n darparu buddion tymor hwy.

Er mwyn i hyfforddiant un i un neu grŵp bach fod yn fwyaf effeithiol fel strategaeth dal i fyny, mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr addysgwr dal i fyny, yr athro dosbarth a'r disgybl(ion) yn allweddol, er mwyn sicrhau anghenion penodol y disgybl(ion) sy'n derbyn ymyriadau dal i fyny ac aliniad effeithiol rhwng cwricwlwm / addysgu ystafell ddosbarth yr ysgol (EEF, 2018a). Hynny yw, dylid sicrhau bod *'dysgu mewn ymyriadau yn gyson â gwaith y tu mewn i'r ystafell ddosbarth, ac yn ei ymestyn, a bod disgyblion yn deall y cysylltiadau rhyngddynt'* (EEF, 2018a, t.11).



Cost ac effaith gymharol athro yn erbyn cynorthwydd addysgu yn erbyn ymyriadau a ddarperir gan wirfoddolwyr hyfforddedig

Terminoleg ac iaith

Mae'r papur briffio hwn wedi defnyddio'r term 'ymyriadau dal i fyny' gan mai dyma'r term a ddefnyddir amlaf mewn ysgolion, dogfennau'r llywodraeth/polisi a'r sylfaen ymchwil berthnasol. Fodd bynnag, mae adborth gan addysgwyr yn awgrymu **y dylid adolygu'r term 'ymyriadau dal i fyny' ar sail bod y term wedi'i seilio gormod ar ddiffyg**. Yn yr un modd, dylid osgoi iaith fel 'diffyg dysgu', 'bwllch dysgu', 'bod ar ei hôl hi' neu 'waith coll', yn rhannol gan nad yw'r cywair negyddol yn ddefnyddiol wrth geisio ysgogi plant ond hefyd am fod perygl iddo roi'r cyfrifoldeb am leihau'r bwllch cyrhaeddiad ar y myfyrwyr eu hunain.

Yn hytrach, dylid defnyddio terminoleg ac iaith gadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfder e.e. 'adferiad' neu 'gymorth wedi'i dargedu' / 'ymyriadau wedi'u targedu'. Yn ogystal â bod wedi'i seilio gormod ar ddiffyg, mae rhai addysgwyr wedi awgrymu nad oes hyblygrwydd yn y term 'ymyriadau dal i fyny' – er enghraifft, mae'n awgrymu ymyrraeth untro sydd â'r nod o gael myfyriwr yn ôl i lefel cyrhaeddiad 'normal', nad yw'n aml yn wir yn ymarferol.

Gweithredu effeithiol

Dim ond os cânt eu gweithredu a'u haddysgu'n dda y bydd gwybod pa ymyriadau a dulliau sydd fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus yn arwain at lwyddiant. O ganlyniad, mae cynllunio ar gyfer sut y bydd ymyriadau dal i fyny yn cael eu darparu yn ymarferol yr un mor bwysig â phenderfynu pa rai i'w gweithredu.

Yn anochel, mae angen adnoddau ychwanegol ar ymyriadau dal i fyny, sy'n golygu y dylai cynllunio gweithredu ystyried anghenion staff presennol, gallu posibl, ac anghenion hyfforddi. Dylai penderfyniadau ar flaenoriaethau cystadleuol dynnu o'r sylfaen dystiolaeth. Er enghraifft, gellid amddiffyn blaenoriaethu hyfforddiant grŵp bach i ddarparu ymyriadau i

fwy o blant (nag y byddai defnyddio hyfforddiant un i un) os cynigir cefnogaeth fwy dwys i blant sy'n parhau i ddisgyn yn ôl. Yn yr un modd, dylid cefnogi'r penderfyniad o gael cynorthwyyr addysgu i ddarparu ymyriadau strwythuredig, i leihau costau a chyfyngiadau o ran gallu, gyda chymorth o ansawdd uchel ar ffurf hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2014; EEF, 2018a).

Yn ogystal â chymryd amser yr addysgwyr sy'n cyflwyno'r ymyriadau, mae ymyriadau dal i fyny hefyd yn cymryd amser disgyblion. O ganlyniad, mae gweithredu effeithiol yn dibynnu ar wneud penderfyniadau gofalus ynghylch pryd mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ymyriadau dal i fyny, yn enwedig os yw hyn yn golygu eu bod yn colli gweithgareddau sy'n bodoli eisoes – p'un a yw hynny'n ddysgu yn yr ystafell ddosbarth neu'n weithgareddau sy'n bwysig ar gyfer lles. Dylai'r ymyrraeth dal i fyny o leiaf arwain at effaith gadarnhaol fwy i'r disgybl na'r wers neu'r gweithgaredd y mae'n cael ei dynnu'n ôl ohono.

Ffordd bosibl o oresgyn anawsterau gyda blaenoriaethu amser disgyblion ac amcanion dysgu sy'n gwrthdaro fyddai cyflwyno ymyriadau dal i fyny y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos cydberthyniadau cadarnhaol rhwng mwy o amser dysgu a mwy o ddysgu (e.e. Andersen ac eraill, 2016; Yeşil Dağlı, 2019).

Agwedd allweddol ar weithredu effeithiol yw sicrhau bod ymyriadau dal i fyny yn cael eu targedu at y plant sydd eu hangen fwyaf, a darparu'r hyn sydd ei angen ar y plant hynny, ar yr adeg iawn.

Gallai cynyddu'r amser dysgu gynnwys ymestyn y flwyddyn ysgol neu'r diwrnod ysgol, neu gynnig ysgolion haf (Sibieta, 2021). Mae'n bosibl bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhai o'r syniadau hyn (BBC News, 2021). Fodd bynnag,

mae rhwystrau gweithredu clir a sylweddol y byddai angen eu goresgyn i roi newidiadau radical o'r fath ar waith yn y ffordd y mae ysgolion yn tueddu i weithredu, a dylai barn ysgolion ac athrawon fod yn ganolog i benderfyniadau ar unrhyw newidiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cael cefnogaeth.

Mae'r dystiolaeth ar strategaethau effeithiol yn dangos bod alinio rhwng addysgu ystafell ddosbarth ac ymyriadau dal i fyny yn ffactor pwysig ar gyfer llwyddiant (EEF, 2018a). Mae sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddarparu i athrawon dosbarth a'r addysgwyr sy'n cyflwyno ymyriadau dal i fyny (os ydynt yn bobl wahanol) i gysylltu â'r hyn sy'n cael ei ddarparu i ddisgyblion y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn allweddol ar gyfer gweithredu'n effeithiol.


Yn unol â blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru, bydd ymyriadau dal i fyny yn canolbwyntio ar blant agored i niwed a difreintiedig, dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg, a'r rheini ym Mlwyddyn 7, yn ogystal â meysydd cwricwlwm fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau dysgu annibynnol, ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae arwyddion y bydd angen mwy o ddatblygiad/hyfforddiant proffesiynol ar gyfer ymyriadau dal i fyny rhifedd o'u cymharu â llythrennedd, oherwydd tystiolaeth sy'n dangos cymharol lai o arbenigedd mathemateg o fewn y gweithlu addysgu, er bod hyn yn amlwg yn amrywio yn ôl ysgol (Sibieta, 2018).

Agwedd allweddol arall ar weithredu effeithiol yw sicrhau bod ymyriadau dal i fyny yn cael eu targedu at y plant sydd eu hangen fwyaf a darparu'r hyn sydd ei angen ar y plant hynny i adfer o gymharu â'u hanghenion. Mae hyn yn dibynnu ar asesu plant pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol a thargeddu ymyriadau yn briodol – yn unol â'r gallu a'r adnoddau sydd ar gael.

Yng nghyd-destun adfer yn sgil y pandemig, mae angen ystyried sut y gall gwahanol fathau o anghenion addysgol amrywio ar draws

gwahanol grwpiau o blant o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o anghenion dal i fyny. Er enghraifft, awgrymodd adborth ar lafar gan addysgwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod y prosiect hwn y gallai effaith y tarfu ar addysg ar sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn arbennig o ddifrifol rhwng plant bregus a difreintiedig a'u cyfoedion llai difreintiedig, ond gallai anghenion dal i fyny cymdeithasol ac emosiynol gael eu dosbarthu'n fwy cyfartal. Ar yr un pryd, mae sicrhau bod anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn cael sylw yn allweddol er mwyn sicrhau bod eu dysgu academiaidd yn eu hysgogi ac yn hoelio'u sylw, gan olygu y gall fod angen i gymorth cymdeithasol ac emosiynol fod yn flaenoriaeth yn y lle cyntaf.

Mae model ymyrraeth tair ton y Strategaeth Genedlaethol yn darparu offeryn posibl ar gyfer gweithredu ymyriadau dal i fyny, sy'n caniatáu ar gyfer targedu anghenion amrywiol (gweler y ffigur isod). Mae ton gyntaf y model yn cynnwys edrych ar sut y gellir darparu darpariaeth dosbarth cyfan o'r ansawdd uchaf, mewn ffordd sy'n atal plant rhag cwmpo ar ôl yn eu dysgu. Mae'r ail don yn edrych ar yr hyn y gellir mynd i'r afael ag ef fel grŵp, gan ddefnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth, i helpu plant sydd wedi cwmpo ar ôl i ddal i fyny â'u cyfoedion. Mae'r drydedd don yn cyfeirio at gefnogaeth ychwanegol, fwy dwys ac unigol, yn seiliedig ar dystiolaeth 'beth sy'n gweithio' annibynnol, ar gyfer plant sydd ag anghenion tymor hwy a lefel uwch o bosibl.



Model Ymyrraeth Tair Ton

Mae defnyddio'r model tair ton yn golygu edrych ar yr hyn sy'n hollol angenrheidiol i gyflawni ar sail un i un yn unig, ar ôl edrych ar lefel dosbarth a grŵp. Mae hyn hefyd yn golygu bod yr ymyriadau sydd â'r costau mwyaf a'r angen mwyaf am adnoddau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y disgyblion hynny sydd eu hangen.

Yn ogystal ag asesiad cychwynnol a dyrannu plant i ymyriadau yn unol â'u hanghenion, bydd angen monitro cynnydd yn barhaus i sicrhau bod y gweithredu'n effeithiol yn y tymor hir. Dylid defnyddio monitro canlyniadau i benderfynu pa mor hir i barhau ag ymyriadau cyn naill ai gostwng lefel yr ymyrraeth (os gwnaed y cynnydd angenrheidiol), cynyddu lefel yr ymyrraeth (os nodwyd anghenion cymorth mwy unigol), neu newid y math o ymyrraeth (os yw'r disgybl yn dal i gael trafferth ond nad yw'n symud ymlaen gyda'r dull presennol). Mae'r dull olaf hwn (h.y. newid dulliau ar gyfer plant sy'n dal i gael trafferth) yn dibynnu ar ysgolion yn cael yr hyblygrwydd i wneud hynny, yn ogystal â'r cyfle i rannu adnoddau.

Argymhellion

Dylai ymyriadau dal i fyny a roddwyd ar waith fel rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r system addysg a dysgwyr i adfer yn sgil y pandemig:

- Gael eu gosod mewn iaith seiliedig ar gryfderau, yn hytrach na diffygion, gan osgoi termau fel 'colli dysgu' neu 'gwmpo ar ei hôl hi'. Hefyd, gellir gwella'r term 'ymyrraeth dal i fyny' i adlewyrchu hyn (e.e. 'cymorth wedi'i dargedu' neu 'ymyrraeth wedi'i thargedu').
- Cael eu cefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer eu heffeithiolrwydd, neu, yn achos ymyriadau 'heb eu profi', dylid sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn unol â nodweddion cyffredin ymyriadau effeithiol, lle y bo'n bosibl.
- Cael eu darparu mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod bod darpariaeth un i un a grŵp bach a ddarperir gan athrawon yn debygol o

fod yn fwyaf effeithiol, ac osgoi darparu ar adegau a fyddai'n tynnu myfyrwyr oddi wrth ddysgu yn yr ystafell ddosbarth neu weithgareddau cysylltiedig â lles sydd yr un mor bwysig.

- Cysylltu ag addysgu cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth, gan sicrhau bod cysylltiadau rhwng dysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu trwy ymyriadau dal i fyny yn cael eu gwneud yn glir i ddisgyblion.
- Cael eu darparu ynghyd â chefnogaeth ddigonol o ansawdd uchel i'r rheini sy'n cyflwyno ymyriadau ar ffurf hyfforddiant, yn ogystal â'r lle a'r adnoddau i ddarparu ymyriadau strwythuredig, wedi'u seilio ar dystiolaeth, fel rhan o ddatblygiad a dysgu proffesiynol parhaus.
- Mewnysod asesiadau i sicrhau bod cynnwys a dull cyflwyno ymyriadau dal i fyny yn cael eu targedu mewn perthynas ag anghenion disgyblion:
 - Ar ddechrau'r ymyrraeth;
 - Trwy gydol yr ymyrraeth i sicrhau bod anghenion yn parhau i gael eu diwallu (addasu'r ymyrraeth os oes angen); ac
 - Unwaith y daw'r ymyrraeth i ben, i fonitro gwelliant a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal.

Awdur: Manon Roberts (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru)

Adolygydd cymheiriaid: Yr Athro Steven Higgins, Prifysgol Durham

Cynghorydd: Yr Athro Jonathan Sharples, Sefydliad Gwaddol Addysgol

Cyfeiriadau

Andersen, S.C., Humlum, M.K., a Nandrup, A.B. (2016). **Increasing instruction time in school does increase learning**. Proceedings of the National Academy of Sciences, 113(27), tt.7481-7484.

BBC News. (2021). **Covid: Schools in Wales opening in summer holiday 'a possibility'**. 26 Ionawr 2021. Adalwyd o:
www.bbc.co.uk/news/uk-wales-55810821

Sefydliad Gwaddol Addysgol. [EEF]. (2016). **Nuffield Early Language Intervention: Evaluation report and executive summary**. Adalwyd o:
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/nuffield-early-language-intervention/>

Sefydliad Gwaddol Addysgol. [EEF]. (2018a). **Making best use of teaching assistants: Guidance report**. Adalwyd o:
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/tools/guidance-reports/making-best-use-of-teaching-assistants/>

Sefydliad Gwaddol Addysgol. [EEF]. (2018b). **Teaching and Learning Toolkit**. Adalwyd o:
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/>

Sefydliad Gwaddol Addysgol. [EEF]. (2020). **COVID-19 Support Guide for Schools**. Adalwyd o:
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/covid-19-resources/national-tutoring-programme/covid-19-support-guide-for-schools/>

Gorard, S., See, B. H., a Siddiqui, N. (2014). **Switch-On Reading: Evaluation Report and Executive Summary**. Sefydliad Gwaddol Addysgol. Adalwyd o:
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/switch-on-reading/>

Major, L.E., Eyles, A., a Machin, S. (2021). **Learning loss since lockdown: variation across the home nations**. Covid-19 Analysis Series. Y Ganolfan Perfformiad Economaidd. Adalwyd o:
<https://cep.lse.ac.uk/pubs/download/cepcovid-19-023.pdf>

Roy, P., Rutt, S., Buchanan, E., Rennie, C., Martin, K., a Walker F. (2019). **Catch Up® Literacy: Evaluation Report and Executive Summary**. Sefydliad Gwaddol Addysgol. Adalwyd o:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/catch-up-literacy-effectiveness-trial/>

Rutt, S., Easton, C., a Stacey, O. (2014). **Catch Up® Numeracy: Evaluation Report and Executive Summary**. Sefydliad Gwaddol Addysgol. Adalwyd o:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/catch-up-numeracy/>

Sibieta, L. (2016): REACH: **Evaluation Report and Executive Summary**. Sefydliad Gwaddol Addysgol. Adalwyd o:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/reach/>

Sibieta, L. (2018). **Analysis: Teacher labour market pressures**. Education Policy Institute. Adalwyd o: <https://epi.org.uk/publications-and-research/the-teacher-labour-market/>

Sibieta, L. (2021). **The crisis in lost learning calls for a massive national policy response**. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Adalwyd o: <https://www.ifs.org.uk/publications/15291>

Torgerson, C.J., Wiggins, A., Torgerson, D.J., Ainsworth, H., Barmby, P., Hewitt, C., Jones, K., Hendry, V., Askew, M., Bland, M., Coe, R.,

Higgins, S., Hodgen, J., Hulme, C., a Tymms, P. (2011). **Every child counts: The independent evaluation**. Llundain: Yr Adran Addysg. Adalwyd o:

<https://www.gov.uk/government/publications/every-child-counts-the-independent-evaluation-technical-report>

Llywodraeth Cymru. (2012). **Canllawiau ar gyfer rhaglenni dal i fyny llythrennedd a rhifedd**. Adalwyd o:

<https://hwb.gov.wales/api/storage/75bc7f06-1e34-49f7-a0f5-0ab88d74cbcb/canllawiau-ar-gyfer-rhaglenni-dal-i-fyny-llythrennedd-a-rhifedd.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2014). **Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Beth sydd wir yn gweithio?** Adalwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publication/s/2018-11/beth-sydd-wir-yn-gweithio.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2021). **Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr**. Adalwyd o: <https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr.html>

Yeşil Dağlı, Ü. (2019). **Effect of increased instructional time on student achievement**. Educational Review, 71(4), tt.501-51

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chynghor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol

Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works Network') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Manon Roberts

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

Wales Centre for Public Policy

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

 www.wcpp.org.uk

 029 2087 5345

 info@wcpp.org.uk

 @WCfPP

